**<u>Mae Hawlfraint ar y Deunydd hwn</u>**

Mae Asiantaeth Ieuenctid Cymru wedi gofyn am a chael caniatâd i ddarparu'r deunydd hwn ar CD at ddibenion addysgol yn unig. Ni chaniateir unrhyw ddefnydd anawdurdodedig o'r deunydd hwn, ac ni ellir ei atgynhyrchu ychwaith.

**Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd yr Asiantaeth Ieuenctid Genedlaethol.**
**Er mwyn cael rhagor o fanylion ar yr AIG ewch i'w gwefan: www.nya.org.uk**

# GWARIANT DEFNYDDWYR YN EU HARDDEGAU YN 1959

*gan Mark Abrams*

Papur a gyhoeddwyd gan *The London Press Exchange Ltd*, Ymarferwyr Corfforedig mewn Hysbysebu, yn Ionawr 1961

Rwyf wedi diffinio'r rhai yn eu harddegau fel y bobl ifanc hynny sydd yn ddibriod ac wedi cyrraedd pymtheg oed ond nad ydynt eto yn bump ar hugain oed. Gan ddilyn y diffiniad hwn, roedd ym Mhrydain Fawr yng nghanol 1959, bum miliwn yn eu harddegau - 2¾ miliwn o fechgyn a 2 ¼ miliwn o ferched. Roedd tua phedair miliwn o'r rhain (dwy filiwn o fechgyn a dwy filiwn o ferched) yn gweithio ym myd busnes a diwydiant; roedd y miliwn arall naill ai yn dal mewn ysgol neu goleg (650,000 ohonynt), neu yn y lluoedd arfog (350,000).

Mae'r rheiny mewn gwaith yn ennill cyflogau cymharol uchel. Dangosodd y cyfrifiad cyflogau hanner blynyddol a gafodd ei gynnal ym mis Hydref 1959 gan y Weinyddiaeth Lafur fod gwryw yn ei arddegau ar gyfartaledd yn ennill tua £8 yr wythnos, a bod enillion wythnosol cyfartalog merch tua £6. Dyma incwm cyfartalog gros y rhai a oedd yn cael eu cyflogi mewn diwydiant. Er mwyn cael darlun cyflawn o gyfoeth y rhai yn eu harddegau, byddai angen cymryd i ystyriaeth gyflogau is y rheiny sydd yn dal yn yr ysgol ac yn y Lluoedd Arfog, ac ar gyfer cyflogau uwch - yn enwedig ymhlith merched - y rheiny sy'n gweithio y tu allan i ddiwydiant, megis mewn swyddfeydd busnes, yn y proffesiynau (e.e. dysgu mewn ysgol), ac mewn swyddi sy'n cynnig 'gwasanaeth' (e.e. torri gwallt).

Eto, rhaid cymryd i ystyriaeth y ffaith y bydd y rhai yn eu harddegau yn cael arian wedi ei dynnu o'u henillion i gwrdd â rhwymedigaethau Yswiriant Gwladol a Threth Incwm, a hefyd bod bachgen mewn gwaith ar gyfartaledd yn talu tua 35 swllt yr wythnos i'w rieni am fwyd a llety, a merch mewn gwaith ar gyfartaledd yn talu tua 25 swllt yr wythnos am y gwasanaethau hyn.

Wedi ystyried yr ystyriaethau hyn (a hefyd tynnu swm bychan ar gyfer cynilion gwirioneddol net - e.e. ar gyfer priodas ond nid ar gyfer gwyliau), mae'n ymddangos y byddai gwryw yn ei arddegau ar gyfartaledd yn 1959 (mewn gwaith neu ddim mewn gwaith) yn gwario 71s. 6d. yr wythnos, a byddai merch (mewn gwaith neu ddim mewn gwaith) ar gyfartaledd yn gwario 54 swllt. Hynny yw, yn 1959, byddai'r pum miliwn hynny yn eu harddegau ym Mhrydain, ar ôl cwrdd â'u hymrwymiadau teuluol a'r Wladwriaeth, ac ar ôl rhoi tua £70 miliwn naill ochr fel cynilion gwirioneddol, yn gwario £830 miliwn, neu ychydig dros 5 y cant o gyfanswm cenedlaethol gwariant defnyddwyr.

Ar yr olwg gyntaf, mae hyn yn ymddangos yn gymhareb resymol iawn ar gyfer grŵp o bobl sydd yn cyfrif am 10 y cant o'r holl boblogaeth ac 13 y cant o'r

boblogaeth sy'n bymtheg oed a hŷn; prin ei fod yn dangos darlun o grŵp llewyrchus iawn o bobl ifanc. Ac eto, dyma'r farn gyffredinol ymhlith y rhan fwyaf o oedolion. Maent yn medru cyfiawnhau eu barn ar sail dau beth: y ffaith bod enillion gwirioneddol pobl yn eu harddegau wedi codi lawer ynghynt na rhai oedolion ers yr 1930au, ac yn ail, mewn rhai marchnadoedd (e.e. dillad, colur, diodydd ysgafn), mae gwariant pobl yn eu harddegau mor uchel fel ei fod bron yn penderfynu cymeriad a ffyniant y maes.

**Tabl 1. Gwariant gan Bobl yn eu Harddegau 1959**

| | Pawb yn eu Harddegau | % o'r cyfanswm | Cyfartaledd wythnosol pobl yn eu harddegau | Gwariant pobl yn eu harddegau fel % o holl wariant defnyddwyr |
|---|---|---|---|---|
| | £m. y.f. | % | s. d. | % |
| Siocledi, losin, hufen iâ | 30 | 3.6 | 2 3 | 10.7 |
| Diodydd ysgafn, diodydd llaeth | 16 | 1.9 | 1 3 | 13.3 |
| Bwyta allan, byrbrydau | 76 | 9.2 | 5 10 | 14.6 |
| Diod alcoholig | 50 | 6.0 | 3 10 | 5.3 |
| Sigaréts a thybaco | 88 | 10.6 | 6 10 | 15.1 |
| Dillad ac esgidiau | 160 | 19.3 | 12 3 | 10.6 |
| Beiciau, beiciau modur, etc. | 26 | 3.1 | 2 0 | 37.1 |
| Recordiau, peiriannau chwarae recordiau, etc. | 17 | 2.0 | 1 4 | 42.5 |
| Llyfrau, papurau, cylchgronau | 26 | 3.1 | 2 0 | 10.9 |
| Colur a phethau ymolchi | 22 | 2.7 | 1 8 | 29.3 |
| Nwyddau eraill o'r fferyllfa | 16 | 1.9 | 1 3 | 10.2 |
| Nwyddau hamdden | 30 | 3.6 | 2 4 | 18.2 |
| Mynychu'r sinema | 20 | 2.4 | 1 7 | 28.2 |
| Adloniant arall | 35 | 4.2 | 2 8 | 30.5 |
| Gwyliau | 58 | 7.0 | 4 6 | 12.9 |
| Holl nwyddau a gwasanaethau eraill | 160 | 19.4 | 12 5 | 1.6 |
| | 830 | 100.0 | 64 0 | 5.3 |

Mae ffigurau gwariant pobl yn eu harddegau a welir yn Nhablau 1 a 2 yn amcangyfrif wedi ei gyfrifo o arolygon defnyddwyr amrywiol dros y deunaw mis diwethaf, yn cynnwys Arolwg Marchnata Ieuenctid gan Arolygon Marchnad Cyf. Maent yn dangos graddau uchel o ganolbwyntio gwariant. Er enghraifft, mae bron i un rhan o bump o'r holl arian sydd heb ei ymrwymo gan bobl yn eu harddegau yn cael ei wario ar ddillad ac esgidiau; mae 17 y cant arall yn cael ei wario ar ddiod a thybaco, a 15 y cant arall ar losin, diodydd ysgafn, bwyd a byrbrydau, ayb mewn caffis a bwytai; mae cyfran dda o'r gweddill yn cael ei wario ar nwyddau adloniant - recordiau 'pop', gramoffonau, cylchgronau rhamantus a llyfrau clawr papur, ymweliadau â'r sinema a'r neuadd ddawns.

Ar y cyfan felly, gallwn gyffredinoli drwy ddweud bod swm eithaf uchel o'r arian sydd ar gael i'w ddefnyddio gan unigolyn cyffredin yn ei arddegau ym Mhrydain yn

cael ei wario ar wisg ac ar nwyddau sy'n ffurfio cysylltiad cymdeithasgarwch pobl yn eu harddegau y tu allan i'r cartref. Hynny yw, mae hyn yn wario nodweddiadol i bobl yn eu harddegau ar gyfer dibenion nodweddiadol pobl yn eu harddegau mewn byd nodweddiadol pobl yn eu harddegau.

Nodwedd drawiadol a pherthnasol arall o'r ffigurau yn Nhabl 1 yw ystod eang yn amlder y gwariant ymhlith pobl yn eu harddegau rhwng y gwahanol farchnadoedd. Mae eu cyfraniad o bwysigrwydd mawr mewn rhai - yn cyfrif am o leiaf 25 y cant o wariant defnyddwyr ar feiciau a beiciau modur, ar recordiau a pheiriannau chwarae recordiau, ar golur a phethau ymolchi, ac ar fynychu'r sinema a mathau eraill o adloniant. Mewn ail grŵp o farchnadoedd mae cyfraniad pobl yn eu harddegau, er dipyn yn llai, yn dal i fod rhwng 10 y cant ac 20 y cant o'r cyfanswm cenedlaethol - melysion, diodydd ysgafn, dillad ac esgidiau, nwyddau hamdden a chwaraeon, llyfrau a chylchgronau, a sigaréts.

Wrth gwrs, i'r gwrthwyneb o'r ddominyddiaeth hyn mewn rhai marchnadoedd gan bobl yn eu harddegau, mae eu heffaith yn ddibwys mewn eraill. Mae'r pennawd 'holl nwyddau a gwasanaethau eraill' yn Nhabl 1 yn cynnwys bron i ddwy ran o dair (63 y cant) o holl wariant defnyddwyr, ac yma, mae gwariant pobl yn eu harddegau yn cyfrif am lai na 2 y cant o'r cyfanswm. Mae'n bennawd a ddaeth i gyfanswm o £9,910 miliwn yn 1959, ac yn cynnwys, ymysg pethau eraill, bwyd i'r cartref, tai, tanwydd a golau, ceir modur, celfi, nwyddau parhaol i'r cartref, tecstilau a ffabrigau i'r cartref, glanedyddion, yswiriant, a gwasanaethau cyfathrebu. Mae'r maes gwariant hwn, y gyfran fwyaf o'r economi o bell ffordd, wedi ei ffurfio gan set o farchnadoedd oedolion bron yn llwyr, a'r rhan fwyaf ohonynt, fel y gwelir, yn ymwneud â'r cartref.

Mae un farchnad oedolion sylweddol arall lle mae gwariant pobl yn eu harddegau yn gymharol ddibwys – alcohol. Mae'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael o arolygon sampl yn dangos bod llai na 40 y cant o wrywod yn eu harddegau yn cymryd unrhyw ddiodydd alcoholig mor aml ag unwaith yr wythnos. Ymysg merched, mae'r ymwrthodwyr hyd yn oed yn fwy niferus – mae llai na 10 y cant yn yfed unrhyw alcohol mor aml ag unwaith yr wythnos.

Mae'r ffigurau manwl yn Nhabl 1 yn cyfeirio at wariant yr holl bobl yn eu harddegau. Yn Nhabl 2 mae darlun ehangach o'r gwariant fesul bechgyn a merched a fesul pobl dosbarth canol a dosbarth gweithiol yn eu harddegau.

**Tabl 2. Gwariant Wythnosol gan Bobl yn eu Harddegau fesul dosbarth a rhyw 1959 (mewn sylltau)**

| | BECHGYN | | MERCHED | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Dosbarth Canol | Dosbarth Gweithiol | Dosbarth Canol | Dosbarth Gweithiol | Pob Bachgen | Pob Merch | Dosbarth Canol i Gyd | Dosbarth Gweithiol i Gyd | Pawb yn eu Harddegau |
| | s. | s. | s. | s. | s. | s. | s. | s. | s. |
| Bwyd (yn cynnwys melysion) | 11.0 | 8.8 | 7.8 | 6.7 | 9.4 | 7.1 | 9.4 | 7.9 | 8.1 |
| Diodydd, meddal a 'chaled' | 9.3 | 6.8 | 2.0 | 1.4 | 7.5 | 1.6 | 5.6 | 4.5 | 5.0 |
| Sigaréts a thybaco | 7.4 | 9.9 | 2.7 | 3.8 | 9.2 | 3.4 | 5.2 | 7.3 | 6.9 |
| Dillad ac esgidiau | 8.3 | 7.2 | 24.9 | 14.6 | 7.8 | 18.0 | 16.6 | 10.4 | 12.3 |
| Colur a phethau ymolchi | 0.4 | 0.9 | 3.0 | 2.5 | 0.8 | 2.7 | 1.7 | 1.7 | 1.7 |
| Adloniant | 5.3 | 5.5 | 2.3 | 2.5 | 5.4 | 2.4 | 3.8 | 4.3 | 4.2 |
| Cludiant | 8.7 | 6.1 | 9.0 | 5.5 | 6.8 | 6.7 | 8.8 | 5.8 | 6.8 |
| Holl nwyddau a gwasanaethau eraill | 19.6 | 26.8 | 16.3 | 10.0 | 24.6 | 12.1 | 17.9 | 19.1 | 19.0 |
| CYFANSWM | 70.0 | 72.0 | 68.0 | 47.0 | 71.5 | 54.0 | 69.0 | 61.0 | 64.0 |

Mae'r bachgen cyffredin yn gwario 71s. 6d. yr wythnos; mae hyn bron draean yn fwy na gwariant wythnosol y ferch gyffredin o 54s. Ar yr un pryd, mae mwy o fechgyn yn eu harddegau na merched yn eu harddegau (5 i 4), ac un canlyniad i'r

ddau wahaniaeth yma yw bod gwariant bechgyn yn cyfrif am bron i ddwy ran o dair (63 y cant) o holl wariant pobl yn eu harddegau. Mae’r bachgen cyffredin yn gwario dros 22 swllt yr wythnos (31 y cant o’i gyfanswm) ar ddiodydd, sigaréts a mynediad i adloniant. Mae gwariant ar y rhain i’r ferch gyffredin yn 7s. 6d. yn unig, neu lai na 14 y cant o’i holl wariant. Ar y llaw arall, mae hi’n gwario dros bunt yr wythnos ar ddillad, esgidiau a cholur, ac mae’r eitemau hyn yn mynd â bron i 40 y cant o’i chyllideb. Mae’r ferch dosbarth gweithiol dipyn mwy ar ei cholled na’i chwaer dosbarth canol, yn gwario 47 swllt yr wythnos yn unig, o’i gymharu â 68 swllt y ferch dosbarth canol - ac mae ei harbedion mwyaf ar esgidiau a dillad; er hynny, mae bron i draean (31 y cant) o’i harian yn cael ei wario ar yr eitemau hyn; mae’r gyfran yn 37 y cant ar gyfer y ferch dosbarth canol. Nid oes unrhyw arwyddion bod y bwlch economaidd sylweddol hwn rhwng merched dosbarth canol a dosbarth gweithiol yn lleihau.

Ymysg y bechgyn, dim ond gwahaniaeth bychan sydd mewn gwariant fesul dosbarth, a lle mae gwahaniaeth, mae hwnnw o blaid bechgyn dosbarth gweithiol yn eu harddegau; gyda chyfanswm gwariant wythnosol o 72 swllt, maent 2 swllt ar eu hennill o’u cymharu â bechgyn dosbarth canol. Mae patrwm gwariant y ddau grŵp yn debyg ar y cyfan. Mae bechgyn dosbarth canol yn eu harddegau yn gwario ychydig yn fwy ar ddiodydd a dillad ac ychydig yn llai ar sigaréts.

Efallai mai’r sefyllfa gymdeithasol fwyaf trawiadol sy’n deillio o Dabl 2 yw bod gan fachgen dosbarth canol cyffredin a merch dosbarth canol gyffredin yr un swm o arian i’w wario; yn ystod llencyndod maent yn economaidd gyfartal. Mewn cyferbyniad â hyn, yn y dosbarth gweithiol mae gan y bachgen cyffredin 50 y cant yn fwy i’w wario na’r ferch gyffredin; yn wir, ar ôl i’r ferch dosbarth gweithiol dalu am ei dillad, esgidiau a cholur, dim ond 30 swllt yr wythnos sydd yn weddill ganddi - llai na hanner yr hyn sydd gan y bachgen wedi iddo ddiwallu’r un anghenion. Mae’n debyg bod y gwahaniaeth hwn mewn modd i wario yn y dosbarth gweithiol yn parhau drwy’r arddegau. Un canlyniad yw bod dwy ran o dair o’r gwariant ymysg pobl dosbarth gweithiol yn eu harddegau yn cael ei wneud gan fechgyn, ac os tynnir dillad ac esgidiau, maent wedyn yn cyfrif am dri chwarter y gwariant; yn economaidd, mae’n fyd gwrywaidd iawn.

O leiaf o ran llwyddiant pobl yn eu harddegau, mae’r ferch o gartref dosbarth gweithiol sy’n cael gwaith swyddfa yn profi trawsnewidiad dipyn yn fwy na’i brawd sy’n gwneud yr un peth.

**Tabl 3. Darlleniad Papurau Newydd Dyddiol Cenedlaethol**
**Ionawr – Rhagfyr 1959**
**Oddi Wrth Arolwg Darlleniad Cenedlaethol yr I.P.A**

| | Grŵp Oedran 16 – 24 | | | Grŵp Oedran 25 ac yn Hŷn | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Dosbarth Canol | Dosbarth Gweithiol | Y Ddau | Dosbarth Canol | Dosbarth Gweithiol | Y Ddau |
| | % | % | % | % | % | % |
| Daily Mirror | 27 | 52 | 44 | 22 | 41 | 35 |
| Daily Express | 35 | 26 | 29 | 34 | 30 | 31 |
| Daily Mail | 23 | 14 | 17 | 22 | 14 | 17 |
| Daily Sketch | 13 | 18 | 16 | 9 | 12 | 11 |
| Daily Herald | 6 | 13 | 11 | 6 | 17 | 13 |
| News Chronicle | 8 | 7 | 7 | 12 | 11 | 11 |
| Daily | 16 | 2 | 7 | 19 | 2 | 8 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Telegraph** | | | | | | |
| **The Times** | **11** | **1** | **4** | **6** | **1** | **3** |
| **The Guardian** | **6** | **1** | **3** | **5** | **1** | **2** |
| **Cyfanswm yr Uchod** | **145** | **134** | **138** | **135** | **129** | **131** |

Mae yna un farchnad fechan ond pwysig yn gymdeithasol, lle er bod gwariant pobl yn eu harddegau yn gymharol fychan, eto mae natur y gwariant wedi derbyn mwy o sylw cyhoeddus na'r cyffredin; sef y farchnad ar gyfer y cyfryngau printiedig torfol. Mae Tabl 3 yn dangos bod unigolyn cyffredin yn ei arddegau yn darllen 1.37 papur newydd dyddiol cenedlaethol bob dydd. Mae hyn ond ychydig yn fwy nag oedolyn cyffredin 25 oed neu hŷn; ond lle mae 44 y cant o'r bobl yn eu harddegau sy'n darllen papurau newydd yn darllen y *Daily Mirror* a'r *Daily Sketch*, mae'r ddau hyn ond yn cyfrif am 35 y cant o'r darllen ymhlith oedolion. Ar y llaw arall, ymysg pobl yn eu harddegau dim ond 39 y cant o'r cyfanswm oedd yn darllen y *Daily Express*, *Daily Herald*, *News Chronicle*, a'r *Daily Telegraph*, ond ymhlith oedolion roedd cyfran y pedwar hyn yn codi i 48 y cant.

Mae'r canolbwyntio hyn ar y papurau tabloid ymhlith pobl yn eu harddegau a'u hymwrthod cymharol â'r papurau newydd trymion yn adlewyrchiad o'r gwahaniaethau dosbarth; mae pobl yn eu harddegau yn y dosbarth gweithiol, o'u cymharu â phobl yn eu harddegau yn y dosbarth canol, yn darllen llai o bapurau newydd ac mae 52 y cant o'r darllen ar y *Daily Mirror* a'r *Daily Sketch*. Mae'r ddau bapur yma yn cyfrif am 28 y cant yn unig o ddarllen papurau newydd ymhlith pobl yn eu harddegau yn y dosbarth canol.

Mae'r gwahaniaeth rhwng darllen ymhlith pobl yn eu harddegau ac oedolion i'w weld hyd yn oed yn fwy wrth ystyried cylchgronau wythnosol.

**Tabl 4. Darlleniad Cylchgronau Wythnosol**
**Ionawr – Rhagfyr 1959**
**Oddi Wrth Arolwg Darlleniad Cenedlaethol yr I.P.A**

| | **Grŵp Oedran 16 – 24** | | | **Grŵp Oedran 25 ac yn Hŷn** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Dosbarth Canol** | **Dosbarth Gweithiol** | **Y Ddau** | **Dosbarth Canol** | **Dosbarth Gweithiol** | **Y Ddau** |
| | **%** | **%** | **%** | **%** | **%** | **%** |
| **Reveille** | **20** | **37** | **33** | **10** | **21** | **17** |
| **Woman** | **40** | **30** | **33** | **29** | **23** | **25** |
| **Woman's Own** | **34** | **29** | **30** | **24** | **22** | **22** |
| **Weekend** | **16** | **28** | **25** | **5** | **12** | **10** |
| **Tit-Bits** | **10** | **20** | **17** | **6** | **10** | **9** |
| **Valentine** | **5** | **18** | **15** | **1** | **3** | **3** |
| **Woman's Mirror** | **7** | **15** | **13** | **5** | **9** | **8** |
| **Woman's Realm** | **14** | **13** | **13** | **9** | **10** | **9** |
| **Marilyn** | **5** | **14** | **11** | **1** | **3** | **3** |
| **Mirabelle** | **4** | **14** | **11** | **1** | **3** | **2** |
| **Roxy** | **3** | **14** | **11** | **1** | **3** | **2** |
| **Romeo** | **3** | **12** | **10** | **-** | **3** | **2** |
| **Cyfanswm yr Uchod** | **161** | **244** | **222** | **92** | **122** | **112** |

Y cylchgronau sy'n cael eu rhestru yn Nhabl 4 yw'r deuddeg sy'n cael eu darllen fwyaf gan bobl yn eu harddegau. Bob wythnos mae'r unigolyn cyffredin yn ei arddegau yn darllen o leiaf ddau ohonynt. Ar y cyfan mae modd eu grwpio i tri phrif fath:

[a] tabloid tebyg i'r *Daily Mirror* [*Reveille*, *Weekend*, *Tit-bits* a *Woman's Mirror*]

[b] comics serch [*Valentine*, *Marilyn*, *Mirabelle*, *Roxy*, *Romeo*]

[c] cylchgronau menywod yn cynnig ffuglen a chyngor defnyddwyr ar ddillad, colur, coginio, ayb. [*Woman*, *Woman's Own*, *Woman's Realm*]

Mae'r grŵp cyntaf [*Reveille*, ayb.] yn cyfrif am 40 y cant o gyfanswm darllen y deuddeg cylchgrawn gan bobl yn eu harddegau, ac mae o leiaf ddwy ran o dair o'r holl bobl yn eu harddegau yn darllen o leiaf un o'r tri bob wythnos. Mae cyfran yr ail grŵp [*Valentine*, ayb] yn 26 y cant, ac mae o leiaf 40 y cant o'r holl bobl yn eu harddegau yn darllen o leiaf un cylchgrawn o fath *Valentine*, *Roxy* bob wythnos; mae cyfran y trydydd grŵp [*Woman*, ayb] yn 34 y cant o'r cyfanswm, ac mae tua 50 y cant o bobl yn eu harddegau yn darllen o leiaf un ohonynt bob wythnos.

Mae dwywaith cymaint o bobl yn eu harddegau yn darllen y deuddeg cylchgrawn hyn ag sydd o oedolion, ond rhwng y tri grŵp mae'r gymhareb o bobl yn eu harddegau i oedolion yn amrywio'n fawr. Ar gyfer math *Woman*, mae bron yn gyfartal – mae cyfradd y darllenwyr yn eu harddegau o'i gymharu â'r oedolion yn 4 i 3. Ar gyfer y cylchgronau o fath *Reveille*, mae'r gymhareb yn cynyddu i 2 i 1, ac yna ar gyfer y comics serch mae'n neidio'n agos at 4 i 1.

Mae dosbarthiad uchel iawn (yn annibynnol a chymharol) *Reveille*, ayb, a *Valentine*, ayb, ymhlith pobl yn eu harddegau yn bennaf oherwydd eu hapêl i bobl dosbarth gweithiol yn eu harddegau; mewn wythnos arferol mae unigolyn cyffredin dosbarth gweithiol yn ei arddegau yn darllen rhwng dau a thri o'r deuddeg cylchgrawn, ac o'r gyfradd uchel hyn o ddarllenwyr mae tri chwarter ohonynt yn gomics serch a chylchgronau fel *Reveille*. Mae ei lefel ef (a hi) o ddarllen y ddau fath yma bron deirgwaith y lefel ymhlith pobl dosbarth canol yn eu harddegau. A dweud y gwir, mae'r cyhoeddiadau sy'n cael eu disgrifio'n aml fel cylchgronau nodweddiadol pobl yn eu harddegau (*Reveille* a *Valentine*) ond yn nodweddiadol o bobl dosbarth gweithiol yn eu harddegau; ar y cyfan nid ydynt yn apelio at fechgyn a merched dosbarth canol. Mae'r duedd hon mor amlwg nes y gallai unrhyw ymchwil i lencyndod ddechrau drwy ofyn pam fod pobl ifanc dosbarth gweithiol wrth adael yr ysgol a dechrau bywyd fel oedolion mewn cymaint o angen seicolegol difrifol am yr hyn y mae'r cyhoeddiadau yma'n ei ddarparu.

---

Cysodwyd gan James Preston
Cyhoeddwyd gan y Biwro Ieuenctid Cenedlaethol
17 – 23 Stryd Albion, Caerlŷr, LE1 6GD